

Cyn i Lleu gael ei eni roeddwn i'n benderfynol fy mod am ei fwydo o'r fron. Cefais gyngor nad oedd yn hawdd bob amser ac roedd hyn yn anogaeth i mi. Roeddwn hefyd angen teithio i Seland Newydd gyda babi bach gan bod fy mrawd yn priodi yno. Felly roeddwn yn gwybod buasai bwydo o'r fron yn gwneud y daith yn llawer haws.

Cafodd Lleu ei eni'n naturiol, a gallwn weld yn syth wedi ei eni ei fod yn barod i fwydo. Rhoddodd un o'r gweithwyr yn yr ysbyty Lleu yn syth arnaf i fwydo. Dydw i ddim yn cofio teimlo unrhyw boen, dim ond ei fod yn brofiad gwahanol iawn! Bu'n rhaid i ni aros yn yr ysbyty am 6 diwrnod. Dwi'n hollol sicr bod hyn wedi bod yn werthfawr iawn i mi ddysgu bwydo.

Treuliodd Lleu 24 awr ar y ward gofal arbennig, roedd y staff o'r ward honno'n ffonio ward Llifon pan oedd Lleu angen bwydo. Rwy'n ddiolchgar fy mod ar ward Llifon pan ddaeth fy llefrith i mewn gan i'r dechneg o fwydo fynd yn llawer anoddach yn ystod y cyfnod yma. Roedd fy mronnau'n galed a llawn oedd yn golygu bod Lleu yn cnoi i lawr arnaf i fwydo. Yn ystod y cyfnod yma gwnaeth friwiau arnaf wrth iddo frathu i fwydo.

Wedi i mi ddod adref roedd bwydo'n brofiad cymysg iawn. Ar rai adegau roedd bwydo'n iawn ac ar adegau eraill roedd yn boenus ofnadwy. Dwi'n cofio bod yn fy nagrau yn casau meddwl am fwydo yn ystod fy wythnos gyntaf adref.

Erbyn iddi fod yn amer i mi fynd i Seland Newydd roedd Lleu bron yn 4 wythnos oed ac yn ennill pwysau'n dda. Cefais driniaeth am thrush wellodd rhywfaint ar y boen. Erbyn hyn roedd y broses o fwydo ei hun yn iawn ond fy mod mewn poen eithriadol am y munud cyntaf. Roeddwn hefyd yn dal i orfod cuddio fy mronnau o dan ddŵr y gawod!

Am ein wythnos gyntaf yn Seland Newydd gallwn weld pa mor gyfleus oedd teithio gyda babi bach a bwydo o'r fron. Cafodd Lleu fwyd mewn llefydd arbennig iawn; awyren, lan y môr pellenig, gemau rygbi, a phriodas. Erbyn hyn roedd y briw ar fy ochr chwith wedi gwella ac felly roeddwn yn gwybod bod bwydo yn gallu bod yn hollol ddi-boen. Erbyn tua chwe wythnos o fwydo roeddwn i'n teimlo'n llawer gwell ac yn gallu mynd i'r gawod gan deimlo'n "normal"! Tua pythefnos wedyn, roedd bwydo'n gwbl ddi-boen ar y ddwy ochr.

Erbyn hyn dwi wrth fy modd yn bwydo. Mae'n brofiad cwbl wahanol i'r wythnosau poenus cynnar, a'r boen yna'n atgof pell iawn. Fy hoff amser gyda Lleu ydy gorwedd i lawr i'w fwydo i gysgu gyda'r nos. Dwi wrth fy modd efo'r agosatrwydd rhwng y ddau ohonom ni ar yr adegau yma.

Dyma rai pethau wnaeth fy helpu wrth fwydo:

1. Bwydo! Bwydo! Bwydo! Dyma'r peth olaf oeddwn eisiau ei glywed pan oeddwn mewn poen. Ond wrth fwydo mwy roeddwn i'n teimlo'n llai llawn ac felly roedd y broses o fwydo yn haws i Lleu ac yn llai poenus i mi.

2. Gofyn am help. Dwi'n andros o ddiolchgar i fy ngŵr ac aelodau eraill o fy nheulu am gefnogaeth mewn nifer o ffyrdd gwahanol. O fod yn fy annog i fwydo i ddod draw i wneud bwyd i mi! Gallwn yrru neges at fy nghyfneither ynghanol nos yn gofyn "plis dweud bod hyn yn gwella", ac roedd hi'n fy atgoffa nad ydy bwydo i fod i frifo.
3. Gwybod ei bod yn broses ddysgu. Roedd bwydo yn rhywbeth roeddwn i a Llew yn gorfod dysgu i'w wneud. Roeddwn i'n darllen a chwilio am syniadau gwahanol ac yn trio pob math o bethau i weld beth oedd yn helpu!

Dwi'n falch fy mod wedi cael rhybudd bod bwydo'n anodd ond wir-yr mae wedi bod werth pob eiliad. Rydw i'r hynaf o 5 o blant ac fe fwydodd fy mam bob un ohonom. Blwyddyn cyn i Llew gael ei eni fe fuodd Mam farw. Mae hi wedi bod yn ysbrydoliaeth bob dydd i Llew a minnau wrth ddysgu sut i fwydo.